# Cyngor Caerdydd

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb

# Adroddiad Blynyddol 2018-19

**Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg Mae fformatau eraill ar gael ar gais.**

**This document is available in English. Other formats are available on request.**

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | |
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020 | |
| Amcan Cydraddoldeb 1: Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol a phlethu cydraddoldeb i bopeth rydym yn ei wneud | |
| Amcan Cydraddoldeb 2: Cynorthwyo mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad mewn gwasanaethau'r Cyngor | |
| Amcan Cydraddoldeb 3: Cynorthwyo ymgynghoriad dinasyddion ehangach ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i benderfyniadau | |
| Amcan Cydraddoldeb 4: Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg | |
| Amcan Cydraddoldeb 5: Cynorthwyo'r rhai a allai wynebu rhwystrau rhag cyflawni eu potensial | |
| Amcan Cydraddoldeb 6: Mynd i'r afael â bylchau cyflog ein gweithlu yn gysylltiedig i'r nodweddion gwarchodedig | |
| Amcan Cydraddoldeb 7: Meithrin cymunedau cryf a chydlynol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dathlu amrywiaeth Caerdydd | |
| Atodiad 1 Adroddiad Amrywiaeth Cyflogeion 2019 | |

**Rhagair gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

Fel deiliad portffolio Cydraddoldeb Cyngor Caerdydd, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol eleni ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Caerdydd a'n Hamcanion Cydraddoldeb, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Dyma'r 3ydd Adroddiad Blynyddol ar ein Hamcanion Cydraddoldeb a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-2020.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hymrwymiad a'n hamcanion yn y maes hwn, ond nid yw'n sefyll ar ei ben ei hun, mae'n cysylltu'n agos â'n gweledigaeth gyffredinol ar gyfer Caerdydd decach a mwy cyfartal, fel y nodir yn ein strategaeth Uchelgais Prifddinas.

Yn ystod 2018-19, parhaodd Cyngor Caerdydd â'n gwaith strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal yn wyneb y galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus o safon, pwysau llymder parhaus, a gweithio i baratoi ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol eleni yn dangos y cynnydd parhaus rydym yn ei wneud yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb a nodwyd gennym yn 2016. O'n hymdrechion i gael pobl ifanc i gyflogaeth a hyfforddiant, adolygu ein harferion fel cyflogwr mawr i wella cynrychiolaeth yn ein gweithlu, i gyfranogiad ein dinas yng nghynllun ailsefydlu ffoaduriaid y Swyddfa Gartref, mae ein hymrwymiad i greu dinas gynhwysol, groesawgar ac agored yn glir.

Edrychaf ymlaen at barhau â'r gwaith pwysig hwn yn y flwyddyn i ddod a datblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 ymlaen mewn partneriaeth â'n cymunedau a'n partneriaid ledled y ddinas.

Y Cyng. Chris Weaver

Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad

# Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2016 cyhoeddodd Cyngor Caerdydd ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol, gan nodi 7 Amcan Cydraddoldeb y byddai'r awdurdod yn mesur ei hun yn eu herbyn dros y pedair blynedd nesaf. Roedd yr amcanion yn adeiladu ar y gwaith a oedd wedi'i gyflawni mewn Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol blaenorol.

Fel y nodir yn nyletseyddau penodol Cymru dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010), mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio Adroddiad Blynyddol a'i gyhoeddi o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r adroddiadau hyn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r awdurdod wedi'i wneud, dros gyfnod o 12 mis, yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ogystal â darparu'r crynodeb hwn, mae data monitro cydraddoldeb ar gyfer cyflogeion Cyngor Caerdydd yn cyd-fynd â'r adroddiad, gan ein galluogi i fesur i ba raddau yr ydym yn cynrychioli'r gymuned a wasanaethwn.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hamcanion cydraddoldeb, a ddatblygwyd o ganlyniad i raglen ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion grwpiau nodweddion gwarchodedig, er mwyn sicrhau bod eu profiadau'n llywio ein blaenoriaethau ac yn llywio'r hyn a wnawn fel cyngor, wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Yr Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2016-2020 yw:

1. Cyflawni ein dyletswyddau Ccydraddoldeb penodol a phlethu cydraddoldeb i bopeth rydym yn ei wneud;

2. Cynorthwyo mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad mewn gwasanaethau'r Cyngor;

3. Cynorthwyo ymgynghoriad dinasyddion ehangach ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i benderfyniadau;

4. Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg;

5. Cynorthwyo'r rhai a allai wynebu rhwystrau rhag cyflawni eu potensial;

6. Mynd i'r afael â bylchau cyflog ein gweithlu yn gysylltiedig i'r nodweddion gwarchodedig;

7. Meithrin cymunedau cryf a chydlynol lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dathlu amrywiaeth Caerdydd.

# Cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion yn 2018-19

### Amcan 1 - Cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol

**Eleni rydym wedi gwneud y canlynol....**

- Cynhaliwyd adolygiad gennym o'n Datganiad Polisi Cyfle Cyfartal.

- Fe wnaethom ddatblygu ystod o becynnau hyfforddiant cydraddoldeb ac rydym wedi sicrhau bod y rhain ar gael i gyflogeion,

- Cynhaliwyd adolygiad gennym o'n Polisi Cyfeiriadedd Rhywiol a sicrhau bod hyn ar gael i gyflogeion.

- Datblygwyd Polisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gyda Chanllaw Cyflogeion Newydd ar Drais yn erbyn Menywod ac rydym wedi sicrhau bod y rhain ar gael i bob cyflogai.

- Cynhaliwyd adolygiad gennym o'n Llawlyfr Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac rydym wedi sicrhau bod hwn ar gael i bob cyflogai.

- Cynhaliwyd proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ein cynigion i arbed cyllidebau a gwneud cais am dwf.

- Cynhyrchwyd Adolygiad Cydraddoldeb blynyddol gennym (gan gynnwys data monitro cyflogeion).

**Amcan 2 - Cynorthwyo mynediad ehangach at wybodaeth ac amgylcheddau'r Cyngor a chyfranogiad mewn gwasanaethau'r Cyngor**

**Eleni rydym wedi gwneud y canlynol....**

- Darparu gwasanaethau cyngor mewn Canolfannau cymunedol, gan alluogi defnyddwyr gwasanaethau i gael gafael ar gyngor a chymorth wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

- Datblygu a diweddaru gwefan Awyr Agored Caerdydd i gynnwys gwybodaeth am barciau a mannau gwyrdd (gan gynnwys gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn).

- Cyfarfu Grŵp Ffocws Mynediad Cyngor Caerdydd yn rheolaidd i alluogi'r cyhoedd i gyfrannu at fynd i'r afael â hygyrchedd yn amgylchedd adeiledig Caerdydd.

- Buom yn gweithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gyda gwybodaeth reolaidd yn cael ei chyfleu i gyflogeion ar draws pob cyfarwyddiaeth.

- Adnewyddwyd ein hystafelloedd academi hyfforddiant i'w gwneud yn fwy hygyrch i gyflogeion anabl.

- Fe wnaethom addasiadau i ysgolion i ddarparu amgylcheddau hygyrch i ddisgyblion a staff anabl.

- Darparwyd grantiau cyfleusterau i'r anabl gennym i alluogi pobl anabl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi.

- Mewn partneriaeth â chanolfannau hamdden GLL, darparwyd sesiynau gennym ar gyfer grwpiau anabl a menywod yn unig i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

- Darparu gwasanaeth llyfrgelloedd symudol a gwasanaeth llyfrgell sy'n gaeth i'r tŷ i'r rhai nad oeddent yn gallu defnyddio eu llyfrgell leol.

- Gweithiodd rheoli adeiladu gyda phartneriaid gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Cwr y Ddinas, Gwestywyr, Neuadd Dewi Sant, Datblygiadau Sgwâr Canolog a Stadiwm y Principality i sicrhau bod ystyriaethau mynediad yn cael eu cynnwys mewn rhaglenni gwaith.

- Cynhaliwyd adolygiad gennym o'n canllawiau Addasiadau Rhesymol gan uno hyn â'n Polisi Presenoldeb a Lles er mwyn cefnogi addasiadau ar gyfer cyflogeion yn y gweithle.

**Amcan 3 - Cynorthwyo ymgynghoriad dinasyddion ehangach ac ymgysylltu â'r Cyngor a'i benderfyniadau**

**Eleni rydym wedi gwneud y canlynol...**

- Ymgynghori â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau ac yn ymgysylltu â hwy drwy Banel Dinasyddion Caerdydd, Grŵp Ffocws Mynediad Caerdydd, y Cyngor Ieuenctid, Fforymau 50+ Caerdydd, Clwb Pobl Fyddar Caerdydd a'n Partneriaid Trydydd Sector. Cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau a digwyddiadau ymgysylltu gennym hefyd mewn lleoliadau yn y gymuned ledled y ddinas, gan gynnal mentrau wedi'u targedu i gyrraedd pobl ifanc, trigolion PDdLlE a thrigolion yr Arc Ddeheuol.

- Buom yn gweithio tuag at gyflawni ein hymrwymiad i Siarter IAP Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, ymgynghorwyd â chymuned fyddar Caerdydd yn rheolaidd drwy fforymau rheolaidd.

- Cynhaliwyd ein harolwg Blynyddol Holi Caerdydd gan roi cyfle i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd rannu eu profiadau o wasanaethau cyhoeddus, o ran profiadau cadarnhaol a ble y gellid gwella pethau.

- Gwnaethom gefnogi ein Rhwydweithiau Gweithwyr Cydraddoldeb (PDdLlE, Gofalwyr, Anabledd, LHDT a Menywod), i gyfrannu at ddatblygu polisi.

- Cefnogwyd Cyngor 3ydd Sector Caerdydd a Diverse Cymru gennym i ymgynghori ac ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

- Comisiynwyd straeon digidol gennym i alluogi defnyddwyr Gwasanaethau Plant i ddweud wrthym am eu profiadau o dderbyn gwasanaethau a'r effaith y mae'r rhain wedi'i chael yn eu bywydau.

**Amcan 4 - Cynorthwyo pobl i herio triniaeth annheg**

**Eleni rydym wedi gwneud y canlynol...**

- Darparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb i'n cyflogeion.

- Darparu gwybodaeth ar ein gwefan am droseddau casineb ac achosion casineb a sut y dylid adrodd ar y rhain.

- Cynnal gwasanaethau cynghori mewn nifer o'n canolfannau cymunedol.

- Hyrwyddom ein Polisi Datrys i gyflogeion, a ddisodlodd ein polisïau Cwynion, Bwlio ac Aflonyddu.

- Darparwyd cyngor ac arweiniad gennym ar herio triniaeth annheg i gyflogeion a defnyddwyr gwasanaethau drwy ymholiadau dros y ffôn a'n gwefannau a'n mewnrwyd.

- Datblygwyd fframwaith gennym ar gyfer ymgysylltu ag uwch reolwyr ac aelodau â'n rhwydweithiau cyflogeion.

**Amcan 5 - Cynorthwyo’r rhai a allai wynebu rhwystrau rhag cyflawni eu potensial**

**Eleni rydym wedi gwneud y canlynol....**

- Buom yn gweithio gyda’n partneriaid i hyrwyddo ‘Addewid Caerdydd’ a’i uchelgais i gael mwy o bobl ifanc Caerdydd i mewn i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

- Gwnaethom hyrwyddo'r cynllun Prentisiaeth Gorfforaethol Iau i bobl ifanc ledled y ddinas, gan ddarparu prentisiaethau a rolau hyfforddeion ar draws y Cyngor.

- Cynhaliwyd Adolygiad Digartrefedd gennym a chyhoeddwyd Strategaeth Ddigartrefedd 4 blynedd i helpu i atal digartrefedd a diwallu anghenion tai dinasyddion sy'n agored i niwed.

- Darparwyd cyfleoedd hyfforddiant a lleoliadau gwaith gennym, i blant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal y cyngor, drwy gynllun hyfforddeiaeth Dechrau'n Dda.

- Cynhaliwyd adolygiad gennym o'n Polisi Recriwtio a Dethol i sicrhau bod ein prosesau’n deg ac yn ddiduedd i ymgeiswyr er mwyn paratoi ar gyfer lansio ein porth recriwtio ar-lein newydd.

- Gweithiodd ein tîm ymweliadau Gwasanaethau Byw'n Annibynnol gyda defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau'r gwasanaethau a'r manteision mwyaf posibl a fyddai'n galluogi byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

- Gwnaethom hyrwyddo cyflwyno'r cynnig gofal plant am ddim 30 awr ledled Caerdydd.

- Cynhaliwyd adolygiad gennym o'n Polisi Gofalwyr a gwnaethom sicrhau bod hyn ar gael i gyflogeion.

- Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (achrediad Lefel 2) sy'n gweithio i sicrhau bod pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau.

- Fe wnaethom hyrwyddo ein Cyfeiriadur Iechyd a Lles fel siop un stop o wasanaethau cymorth a gwybodaeth ar ystod eang o bynciau Iechyd a Lles a sicrhau bod hwn ar gael i gyflogeion.

- Buom yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Caerdydd fel Dinas Cyflog Byw a rhoi cymorth i sefydliadau a oedd am fod yn gyflogwyr achrededig Cyflog Byw.

- Datblygwyd Strategaeth Dinas sy’n Dda i Blant er mwyn hyrwyddo hawliau plant ym mhopeth a wnawn.

- Buom yn gweithio gyda'n cydweithwyr ym Mwrdd Partneriaeth Caerdydd i wneud Caerdydd yn Ddinas Dementia Cyfeillgar lle gall pobl y mae dementia yn effeithio arnynt barhau i ffynnu a mwynhau bywyd, gyda'r gymuned ehangach yn deall ac yn cefnogi eu hanghenion.

**Amcan 6 - Mynd i’r afael â bylchau cyflog ein gweithlu yn gysylltiedig â’r Nodweddion Gwarchodedig**

**Eleni rydym wedi gwneud y canlynol....**

- Gwnaethom hyrwyddo ein Pecyn Cymorth Gwerthuso Swyddi (sy'n galluogi cynnwys yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â gwerthuso swyddi mewn un ddogfen) i gyflogeion.

- Gwnaethom adolygu a hyrwyddo ein Polisi Cyflog a sicrhau bod hwn ar gael ar ein gwefan ac i bob cyflogai.

- Daethom yn un o lofnodwyr y Siarter Hil yn y Gweithle er mwyn dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael â rhwystrau y mae lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu o ran recriwtio a datblygu.

- Darparwyd ystod eang o brentisiaethau â chyflog a chyfleoedd hyfforddiant newydd ar draws y cyngor.

- Gwnaethom hyrwyddo a gwella cyfleoedd cymwysterau prentisiaeth i bob cyflogai er mwyn hyrwyddo hyfforddiant galwedigaethol.

- Diweddarom y cyflog byw i gyflogeion y Cyngor sy’n ennill y cyflog lleiaf.

- Gweithiom gyda’n rhwydweithiau cyflogeion i nodi’r cymorth y mae ei angen ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud cynnydd yn y Cyngor.

- Hysbysebwyd ein swyddi'n allanol, yn ogystal ag yn fewnol, i gefnogi ein hymdrechion i greu gweithlu sy’n cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn.

**Amcan 7 - Meithrin cymunedau cryf a chydlynol lle mae pobl yn teimlo’n ddiogel ac yn gallu dathlu amrywiaeth Caerdydd.**

**Eleni rydym wedi gwneud y canlynol...**

- Cefnogwyd Pride Cymru a phenwythnos Pride a buom yn gweithio gyda'i drefnwyr i sicrhau bod canol y ddinas ar gael i gynnal penwythnos Pride.

- Parhawyd â'n haelodaeth o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall a gwnaethom gyflwyno cais i'w Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle.

- Rydym yn parhau i weithredu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Genedlaethol Llywodraeth Cymru a'r cynllun cyflawni, gan gynnwys amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi trigolion o wahanol gefndiroedd i gyfarfod drwy chwaraeon, diwylliant a'r celfyddydau a hyrwyddo lles grwpiau ymylol fel ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

- Bu i ni hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch trais domestig a chyfeirio ein cyflogeion at gymorth.

- Cymerwyd rhan yn yr ymgyrch 'Cerdded milltir yn ei hesgidiau' i godi ymwybyddiaeth o drais domestig a'r gefnogaeth sydd ar gael ar draws y ddinas.

- Rhoesom gwestiynau yn Arolwg Holi Caerdydd ynghylch pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo yn eu hardaloedd lleol a’u hargraff o drosedd.
- Fe hyrwyddom galendr diwylliannol o ddigwyddiadau a gwyliau crefyddol gyda'r staff drwy gyfathrebu mewnol.
- Fe ddathlom ystod o ddigwyddiadau amrywiaeth a hyrwyddo’r rhain trwy gyfathrebu mewnol.
- Cynhaliwyd digwyddiadau sy'n pontio'r cenedlaethau er mwyn i bobl hŷn ac iau ddysgu o brofiadau ei gilydd a chysylltu mewn ffyrdd ystyrlon.
- Mynychodd ein haelodau amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol a chrefyddol cymunedol, a'u cefnogi.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r mentrau a grybwyllir yn yr adroddiad blynyddol hwn, cysylltwch â:

Tîm Cydraddoldeb
Ystafell 401
Neuadd y Sir
Bae Caerdydd
CF10 4UW
Dros y ffôn: 029 2087 2536 / 3262

E-bost: timcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

# Atodiad 1

# Cyngor Caerdydd
# Adroddiad Amrywiaeth Cyflogeion 2019

## Cynnwys


| Adran | Cynnwys |
|---|---|
| 1. | Cyflwyniad |
| 2. | Dulliau Casglu Data |
| 3. | Gweithlu'r Cyngor – Grŵp Ethnig a Hil |
| 4. | Gweithlu'r Cyngor – Rhyw |
| 5. | Gweithlu'r Cyngor – Oedran |
| 6. | Gweithlu'r Cyngor – Nodweddion Eraill |
| 7. | Ymgeiswyr am Gyflogaeth |
| 8. | Gwybodaeth Hyfforddiant |
| 9. | Gwybodaeth am Ddisgyblu |
| 10. | Gwybodaeth am Ymadawyr |
| 11. | Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau |

# 1. Cyflwyniad

Bob blwyddyn mae Gwasanaethau Pobl AD (GPAD) yn datblygu Adroddiad Cydraddoldeb yn seiliedig ar y gofyniad statudol i ddarparu data cydraddoldeb. O ddadansoddi'r data, datblygir camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cyfrifoldeb y Rheolwr Gweithredol yw monitro cynnydd ar y camau gweithredu, yna caiff cynnydd a rhwystrau camau gweithredu GPAD eu cyflwyno i Dîm Rheoli'r GPAD. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor roi sylw dyledus i Ddyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010.

- Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl ganolog y mae'n ei chwarae o ran Dyletswyddau Cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel enghraifft o hyn,

    - Rydym yn gweithio i **ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth** trwy'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyflogeion y mae'r GPAD yn eu datblygu a'u hadolygu i sicrhau bod pob cyflogai yn cael ei drin ag urddas a pharch.

    - Rydym yn **Hyrwyddo cyfle cyfartal** drwy'r broses recriwtio a dethol. Hysbysebir cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd hyrwyddo i'r holl gyflogeion ac mae proses ar waith i gynorthwyo rheolwyr a chyflogeion i weithredu addasiadau rhesymol. Mae Cytundeb Cyfunol y Statws Sengl hefyd wedi sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal, gan gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac annog system ddidwyll.

- Rydym yn **Meithrin cysylltiadau da** drwy gefnogi pum rhwydwaith cydraddoldeb cyflogeion i godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb a chynnig cymorth a hyfforddiant ychwanegol i gyflogeion.

# 2. Dulliau Casglu Data

Mae'r Cyngor yn rheoli data cyflogeion trwy dair system weithredu:

a) **DigiGov**, y brif gronfa ddata AD ar gyfer rheoli gwybodaeth cyflogeion
b) **Tribal**, y system recriwtio. (Disodlwyd ym mis Hydref 2019 gan **Talentlink**)
c) **SAP**, y system gyflogres.

Mae gan bob cyflogai a delir gan y Cyngor gofnod ar DigiGov ac y gall ei ddefnyddio i reoli ei ddata personol eu hunan, gan gynnwys ei ddata monitro cydraddoldeb. Gall y Cyngor gynnal adroddiadau yn deillio o DigiGov, sy'n galluogi'r GPAD i ymateb i ofynion newidiol y gweithlu.

Mae system recriwtio Legacy Tribal yn rheoli ceisiadau am swyddi ac yn cynnwys ffurflen monitro cydraddoldeb, sy'n helpu'r GPAD i reoli proses ceisiadau am swyddi gwag ac i sicrhau ei bod yn deg a didwyll. Cymerir data o system Legacy Tribal i gwblhau'r adran monitro cyflogeion ar destun ymgeiswyr sy'n gwneud cais o grwpiau nodweddion gwarchodedig. Ar hyn o bryd, mae'r GPAD yn datblygu system recriwtio newydd a byddant yn defnyddio hyn fel cyfle i wella ymrwymiad y Cyngor i gyfle cyfartal ymhellach.

Pan fydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cynnig cyflogaeth, anfonir contract cyflogaeth a ffurflen monitro cydraddoldeb atynt. Ar ôl i'r ymgeisydd llwyddiannus lenwi a dychwelyd y ffurflen monitro cydraddoldeb, caiff ei ddata ei gofnodi ar DigiGOV gan y GPAD.

Rydym yn parhau i wella gallu ein systemau i gofnodi data cydraddoldeb. Rydym hefyd yn annog cyflogeion i ddefnyddio eu cofnod DigiGOV i ychwanegu gwybodaeth gydraddoldeb ychwanegol i gynorthwyo gyda gwaith monitro'r Cyngor.

# 3. Gweithlu'r Cyngor – Dadansoddi yn ôl Grwpiau Ethnig a Hil

Ar 31 Mawrth 2019, roedd y Cyngor yn cyflogi 13,343 o gyflogeion parhaol/dros dro. Cytunodd12,285 (92.07%) o'n 13,343 o gyflogeion parhaol/dros dro i ddatgelu eu hethnigrwydd i'r Cyngor, a alluogodd y dadansoddiad canlynol.

## Cyfansoddiad Cyffredinol yn ôl Grŵp Ethnig

Mae cyfansoddiad y cyflogeion hyn yn ôl y categorïau ethnigrwydd a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2011 fel a ganlyn:

| Grŵp Ethnig | Nifer |
|---|---|
| Asiaidd-Bangladeshaidd | 111 |
| Asiaidd Prydeinig | 102 |
| Asiaidd-Indiaidd | 72 |
| Asiaidd Arall | 26 |
| Asiaidd-Pacistanaidd | 69 |
| Du Affricanaidd | 90 |
| Du Prydeinig | 99 |
| Du Caribïaidd | 24 |
| Du Arall | 16 |
| Tsieineaidd / Dwyrain Pell | 45 |
| Cymysg Arall | 69 |
| Hil Cymysg Gwyn ac Asiaidd | 36 |
| Hil Cymysg Gwyn a Du Affricanaidd | 54 |
| Hil Cymysg Gwyn a Du Caribïaidd | 71 |
| Heb Ddatgelu | 1058 |
| Ethnigrwydd Arall | 37 |
| Gwyn Prydeinig | 10310 |
| Gwyn Seisnig | 33 |
| Gwyn Ewropeaidd | 159 |
| Gwyn Sipsi / Teithiwr | 1 |
| Gwyn Gwyddelig | 63 |
| Gwyn Arall | 88 |
| Gwyn Albanaidd | 10 |
| Gwyn Cymreig | 700 |
| **CYFANSWM** | **13343** |

## Cyfansoddiad yn ôl Grŵp Hil, a Chymhariaeth â Chyfrifiad 2011

Mae'r tabl isod yn cyfuno'r grwpiau ethnig uchod mewn Grŵp Hil ehangach.

Caiff y grwpiau Asiaidd, Du, Cymysg a Grwpiau ethnig eraill eu cyfuno i Grŵp Hil cyffredinol unigol. Fodd bynnag, oherwydd nifer sylweddol y gwahanol grwpiau ethnig Gwyn, mae'r rhain wedi cael eu harddangos yn unigol. Mae grwpiau ethnig Gwyn Prydeinig, Gwyn Cymreig, Gwyn Albanaidd yn cael eu cyfuno i gategori cyffredinol Gwyn Prydeinig, tra caiff y categorïau eraill Gwyddelig, Gwyn Ewropeaidd, Gwyn Sipsiwn/Teithwyr a Gwyn Arall eu nodi ar wahân.

Mae hyn yn ein galluogi i arddangos grŵp ethnig ein holl gyflogeion nad ydynt yn uniaethu ag ethnigrwydd Gwyn Prydeinig. Mae'r tabl isod yn cymharu cyfansoddiad ein gweithlu yn ôl grŵp hil â phoblogaeth gyffredinol Caerdydd a Chymru.

| | **Cyflogeion** | | **Cyfrifiad 2011** % | |
|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Hil** | % | Cyswllt | Caerdydd | Cymru |
| Asiaidd | 3.09% | 380 | 8.00% | 2.20% |
| Du | 1.86% | 229 | 2.40% | 0.60% |
| Tsieineaidd / Dwyrain Pell | 0.37% | 45 | 1.20% | 0.40% |
| Ethnigrwydd Cymysg | 1.87% | 230 | 2.90% | 1.00% |
| Arall | 0.30% | 37 | 2.00% | 0.50% |
| Gwyn Sipsi / Teithiwr | 0.01% | 1 | 0.20% | 0.10% |
| Gwyn Gwyddelig | 0.51% | 63 | 0.70% | 0.50% |
| Gwyn Arall | 0.72% | 88 | 3.50% | 1.80% |
| Gwyn Ewropeaidd | 1.29% | 159 | | |
| Gwyn Prydeinig * | 89.97% | 11052 | 80.00% | 93.20% |

* Yn cynnwys Gwyn Cymraeg, Gwyn Albanaidd a Gwyn Saesnig

Mae'r tabl yn dangos mai canran y bobl sy'n huniaethu ag ethnigrwydd mewn Grŵp Hil nad yw'n Wyn Prydeinig yw 10.03%.

Mae 1,058 o gyflogeion nad ydynt wedi datgelu eu hethnigrwydd yn gweithio yn y Cyfarwyddiaethau canlynol:

| **Cyfarwyddiaethau** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| DATBLYGU ECONOMAIDD | 84 |
| ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - CANOLOG | 46 |
| ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - YSGOLION | 744 |
| LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU CYFREITHIOL | 1 |
| TAI A CHYMUNEDAU | 27 |
| CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD | 101 |
| ADNODDAU | 20 |
| GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | 35 |
| **CYFANSWM** | **1058** |

## Ethnigrwydd Gweithlu Dros Dro - Caerdydd Ar Waith

Rhwng 01/04/2018 a 31/03/2019 roedd y Cyngor yn cyflogi 722 o bobl drwy ei asiantaeth gyflogaeth dros dro, Caerdydd ar Waith. O'r rhain, datgelodd 613 (84.90%) eu tarddiad ethnig i'r Cyngor, gan alluogi'r tabl isod i ddangos canran y cyflogeion sy'n huniaethu â Gwyn Prydeinig (71.33%), neu ag ethnigrwydd arall (13.57%).

| Grwpiau Hil | Nifer | % |
|---|---|---|
| Asiaidd | 30 | 4.16% |
| Du | 23 | 3.19% |
| Tsieineaidd / Dwyrain Pell | 3 | 0.42% |
| Ethnigrwydd Cymysg | 20 | 2.77% |
| Heb Ddatgelu | 109 | 15.10% |
| Arall | 4 | 0.55% |
| Gwyn Ewropeaidd | 8 | 1.11% |
| Gwyn Gwyddelig | 3 | 0.42% |
| Gwyn Prydeinig | 515 | 71.33% |
| Gwyn Arall | 7 | 0.97% |
| **Cyfanswm** | **722** | **100.00%** |

## Ethnigrwydd Gweithlu Parhaol/Dros Dro yn ôl Cyfarwyddiaeth

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth yn deillio o ddadansoddiad a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2019 sy’n dangos yr amrywiaeth yng nghyfansoddiad y cyflogeion parhaol/dros dro sy'n adnabod fel "Gwyn Prydeinig" a'r rhai nad ydynt, mewn saith Cyfarwyddiaeth sefydliadol y Cyngor (caiff Addysg a Dysgu Gydol Oes ei rannu'n swyddi mewn ysgolion a swyddi cyfarwyddiaeth a gyflogir yn ganolog).

| Cyfarwyddiaethau | Gwyn Prydeinig | Grŵp Hil Arall |
|---|---|---|
| DATBLYGU ECONOMAIDD | 76.78% | 23.22% |
| ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - CANOLOG | 83.80% | 16.20% |
| ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - YSGOLION | 81.69% | 18.31% |
| LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU CYFREITHIOL | 89.32% | 10.68% |
| TAI A CHYMUNEDAU | 84.38% | 15.62% |
| PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU | 93.24% | 6.76% |
| CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A’R AMGYLCHEDD | 84.44% | 15.56% |
| ADNODDAU | 87.29% | 12.71% |
| GWASANAETHAU CYMDEITHASOL | 86.77% | 13.23% |

Sylwch – mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm o 12,285 o gyflogeion parhaol/dros dro sydd wedi datgelu eu hethnigrwydd.

## Grŵp Rhyw a Hil

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth o ddadansoddiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019 sy'n dangos cyfran y cyflogeion ym mhob grŵp hil sy'n gweithio i'r Cyngor, yn ôl eu rhyw.

| Grŵp Hil | Benyw | | Gwryw | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | % | Rhif | % | Cyfanswm |
| Asiaidd | 318 | 83.68% | 62 | 16.32% | 380 |
| Du | 149 | 65.07% | 80 | 34.93% | 229 |
| Tsieineaidd / Dwyrain Pell | 38 | 84.44% | 7 | 15.56% | 45 |
| Ethnigrwydd Cymysg | 157 | 68.26% | 73 | 31.74% | 230 |
| Arall | 27 | 72.97% | 10 | 27.03% | 37 |
| Gwyn Sipsi / Teithiwr | 1 | 100.00% | 0 | 0.00% | 1 |
| Gwyn Gwyddelig | 45 | 71.43% | 18 | 28.57% | 63 |
| Gwyn Arall | 60 | 68.18% | 28 | 31.82% | 88 |
| Gwyn Ewropeaidd | 115 | 72.33% | 44 | 27.67% | 159 |
| Gwyn Prydeinig | 7699 | 69.66% | 3354 | 30.34% | 11053 |

## Grŵp Hil a Thâl

Mae'r tabl isod yn dangos graddau swyddi fesul Grŵp Hil y 9,889 o gyflogeion parhaol/dros dro yn y Cyngor (bron pob cyflogai ac eithrio athrawon a'r rhai mewn lleoliadau ysgol nad ydynt yn rhan o gydgytundeb y Cyngor) sydd wedi eu graddio yn unol â Chynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor. Gradd 1 yw'r radd sy'n cael y cyflog isaf, a grŵp RhG+ (yn cynnwys Rheolwyr Gweithredol, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol, a Chyfarwyddwyr).

| Grŵp Hil | GRADD | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cydgyngor Trafod Telerau Y a C | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | RhG+ |
| Asiaidd | 4 | 31 | 85 | 79 | 59 | 33 | 24 | 16 | 3 | 2 | 3 | 2 |
| Du | 4 | 39 | 23 | 40 | 37 | 25 | 16 | 17 | 6 | 4 | 1 | 0 |
| Tsieineaidd / Dwyrain Pell | 1 | 2 | 13 | 6 | 9 | 2 | 4 | 4 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Ethnigrwydd Cymysg | 4 | 18 | 10 | 42 | 43 | 34 | 30 | 20 | 8 | 1 | 1 | 1 |
| Arall | 0 | 4 | 4 | 9 | 2 | 4 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Gwyn Sipsi / Teithiwr | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwyn Gwyddelig | 1 | 0 | 1 | 5 | 10 | 6 | 3 | 4 | 5 | 3 | 0 | 1 |
| Gwyn Arall | 1 | 8 | 5 | 14 | 8 | 14 | 6 | 7 | 4 | 1 | 1 | 3 |
| Gwyn Ewropeaidd | 3 | 27 | 10 | 28 | 23 | 28 | 10 | 5 | 3 | 1 | 1 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 90 | 343 | 655 | 1434 | 1643 | 1574 | 933 | 607 | 422 | 167 | 141 | 86 |
| Heb Ddatgelu | 12 | 71 | 62 | 135 | 180 | 151 | 59 | 19 | 11 | 2 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **120** | **543** | **868** | **1793** | **2014** | **1871** | **1086** | **700** | **466** | **183** | **150** | **95** |

Mae'r tabl isod yn dangos yr un data yn ôl canran:

| Grŵp Hil | GRADD | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cydgyngor Trafod Telerau Y a C | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | RhG+ |
| Asiaidd | 3.33% | 5.71% | 9.79% | 4.41% | 2.93% | 1.76% | 2.21% | 2.29% | 0.64% | 1.09% | 2.00% | 2.11% |
| Du | 3.33% | 7.18% | 2.65% | 2.23% | 1.84% | 1.34% | 1.47% | 2.43% | 1.29% | 2.19% | 0.67% | 0.00% |
| Tsieineaidd / Dwyrain Pell | 0.83% | 0.37% | 1.50% | 0.33% | 0.45% | 0.11% | 0.37% | 0.57% | 0.64% | 0.55% | 0.00% | 0.00% |
| Ethnigrwydd Cymysg | 3.33% | 3.31% | 1.15% | 2.34% | 2.14% | 1.82% | 2.76% | 2.86% | 1.72% | 0.55% | 0.67% | 1.05% |
| Arall | 0.00% | 0.74% | 0.46% | 0.50% | 0.10% | 0.21% | 0.09% | 0.14% | 0.21% | 0.55% | 0.00% | 0.00% |
| Gwyn Sipsi / Teithiwr | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.06% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |
